

THOMAS, JOHN ('Siôn Wyn o Eifion '; 1786 - 1859), bardd

Enw: John Thomas

Ffugenw: Siôn Wyn O Eifion

Dyddiad geni: 1786

Dyddiad marw: 1859

Rhiant: Thomas Roberts

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: bardd

Maes gweithgaredd: Barddoniaeth

Awdur: Griffith Thomas Roberts

Ganwyd yn Chwilog, plwyf Llanarmon, yn Eifionydd. Ei dad oedd Thomas Roberts, brawd ' [Siôn Lleyrn](#) ' (John Roberts, 1749 - 1817), bardd. Pan oedd ' Siôn Wyn ' yn 9 oed cyfarfu â damwain trwy gael ei wasgu rhwng cert a gwal gerrig yn ymyl ei gartref. Wedi iddo wella aeth i ysgol Isaac Morris, Pentyrch Isaf, athro ' [Eben Fardd](#) ' a ' [Dewi Wyn](#) . ' Ymhen tair blynedd wedi'r ddamwain cafodd glefyd trwm a'i gadawodd yn wan a methiannus am y gweddill o'i oes. Dywedir iddo dreulio 25 mlynedd o'i oes yn ei wely gan fyw'n gyfan gwbl ar faidd a phosel. Cymerai ddiddordeb mewn llyfrau a cherddoriaeth a dysgodd ddarlennu a mwynhau llyfrau Saesneg. Derbyniai'r *Critical Review* a chyfnodolion eraill yn fenthyg o'r Gwynfryn. Hoffai waith Milton a Cowper a chyfieithodd gân y caethwas o waith Cowper yn Gymraeg. Deuai gw r enwog fel [Richard Fenton](#) yr hanesydd a Shelley y bardd i ymweled ag ef. Yr oedd yn cael benthyg llyfrau Cymraeg gan ' [Dafydd Ddu Eryri](#) ' ac eraill (*Adgof uwch Anghof*, 42), a chawn iddo anfon awdl ar ' Gerddoriaeth ' i'w beirniadu gan y gw r hwnnw yn eisteddfod Caernarfon, 1821, ond yr oedd yn rhy hwyr i'r gystadleuaeth. Yn 1808 cymerodd ran mewn cystadleuaeth a drefnwyd gan y Parch. Samuel Rice, prifathro ysgol Bangor. Am awdl ar y testun ' Yr Adgyfodiad ' y gofynnid, ond ysgrifennodd ' Siôn Wyn ' gân ar fesur rhydd a chafodd ei geryddu gan y beirniad ' [Dafydd Ddu](#) ' (*Golud yr Oes*, ii, 160). Un tyner ac addfwyn oedd ' Siôn Wyn, ' fel y gellid disgwyl i un a dreuliodd ei oes mewn neilltuaeth fod, ac oblegid hynny y mae yn ei emynau rai sydd yn addas iawn ar gyfer plant, fel ' Mawl Plentyn ' (*Gwaith Barddonol*, 179). Bu farw 8 Gorffennaf 1859 a chladdwyd ef ym mynwent capel Penlan, Pwllheli.

Awdur

Griffith Thomas Roberts

Ffynonellau

Gwaith barddonol Siôn Wyn o Eifion sef, J. Thomas, Chwilog; yng nghyd a chofiant o fywyd yr awdwr, 1910

J. Jones ('Myrddin Fardd'), '*Adgof uwch Anghof*.' *Llythyrau lluwys o Brif Enwogion Cymru* (1883), 42, 139-58, 187-91

Y Traethodydd, 1900, 277

Y Brython, iii, 111

Y Geninen, Mawrth 1906, 62

Llawysgrif Bangor yng Ngholeg y Gogledd, Bangor Gwynedd 16 (60)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [John Thomas \(Siôn Wyn o Eifion\)](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [53936862](#)

Wikidata: [Q13129356](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

